

MATTHEWS, JOHN (1773 - 1848), tirfesurydd a gŵr cyhoeddus

Enw: John Matthews
Dyddiad geni: 1773
Dyddiad marw: 1848
Priod: Elin Matthews
Plentyn: John Matthews
Rhiant: Edward Matthews
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tirfesurydd a gŵr cyhoeddus
Maes gweithgaredd: Peirianeg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 1 Ionawr 1773, mab Edward Matthews o Benybont ger yr Wyddgrug. Ymgymerodd â gwaith mesur tir, ac erbyn 1811 enillasai le pwysig iddo'i hun gyda'r gwaith hwnnw yn y Gogledd. Yn 1819 penodwyd ef yn gomisiynydd ar gominoedd Arwystli, ac yn 1821 yn gomisiynydd a chanolwr ynglŷn â thir y Traeth Mawr, ger Porthmadog. Ym Mai 1823 symudodd i fferm Clydfanc, ger Llanidloes, ac, yn Rhagfyr 1828, i Aberystwyth. Gwnaethpwyd ef yn fwrdaes yn Aberystwyth, a gwnaeth lawer o'i briod waith yn y dref. Ymddiddorodd hefyd yn natblygiad y gweithiau mwyn yng Ngheredigion ac mewn mannau eraill. Dengys ei ddyddiaduron ei fod yn deithiwr cyflym ac yn deithiwr mawr, a'i fod yn gyfarwydd â Gogledd a chanolbarth Cymru drwyddynt draw. Yr oedd hefyd yn aelod ffyddlon gyda'r Methodistiaid Calfaidd; mynychai'r sasiwn bob cyfle a gâi, a thua diwedd ei oes gweithredai ar nifer o bwyllgorau cyfundebol. Bu farw 9 Ionawr 1848. Priododd Elin, merch Tros-y-wern, ger yr Wyddgrug, a daeth eu mab, JOHN MATTHEWS (1808 - 1870), yntau yn dir-fesurydd, yn siopwr, yn faer tref Aberystwyth, ac yn gyfaill agos i **Lewis Edwards** a **Henry Richard**.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Er Clod Saith Bennod ar Hanes Methodistiaeth yng Nghymru, 1934, 113-33

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [68522785](#)

Wikidata: [Q20733557](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1953). MATTHEWS, JOHN (1773 - 1848), tirfesurydd a gŵr cyhoeddus. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MATT-JOH-1773>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government